A single copy of this document is licensed to

arup50808

On

16/08/2016

This is an uncontrolled copy. Ensure use of the most current version of the document by searching the Construction Information Service.

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 3182 (Cy.298)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae Rhan IV o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ("Deddf 1995") yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol yng Nghymru adolygu ansawdd yr aer ar y pryd ac ansawdd tebygol yr aer yn y dyfodol yn eu hardaloedd. Ynghyd â'r adolygiadau hyn, rhaid asesu a yw unrhyw safonau neu amcanion ansawdd aer, fel y'u rhagnodir gan reoliadau, yn cael eu cyflawni neu yn debygol o gael eu cyflawni o fewn cyfnod rhagnodedig.

Os nad yw pob un o'r safonau neu'r amcanion ansawdd aer hynny yn cael eu cyflawni, neu yn debyg o gael eu cyflawni o fewn y cyfnod rhagnodedig, o fewn unrhyw ran o ardal cyngor, rhaid i'r cyngor o dan sylw ddynodi'r rhan honno o'i ardal yn ardal rheoli ansawdd aer (gweler adran 83(1) o Ddeddf 1995). Yna rhaid paratoi cynllun gweithredu sy'n ymdrin â'r ardal ddynodedig ac yn nodi sut mae'r cyngor yn bwriadu arfer ei bwerau er mwyn cyflawni'r safonau a'r amcanion ansawdd aer rhagnodedig (gweler adran 84(2) o Ddeddf 1995).

Mae Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 ("Rheoliadau 2000") yn gosod yr amcanion ansawdd aer ar gyfer Cymru ac yn rhagnodi'r cyfnodau y mae'n rhaid i'r amcanion hynny cael eu cyflawni o fewn iddynt.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 2000. Maent yn cyflwyno ail amcan ansawdd aer ar gyfer bensen, sef 5 microgram y metr ciwbig neu lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol, sef amcan y mae'n rhaid ei gyflawni erbyn 31 Rhagfyr 2010 (rheoliad 2(2)(a)).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 3182 (W.298)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Air Quality (Amendment) (Wales) Regulations 2002

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Part IV of the Environment Act 1995 ("the 1995 Act") requires county and county borough councils in Wales to review, within their areas, the quality of air for the time being and the likely future air quality. Such reviews must be accompanied by an assessment of whether any prescribed air quality standards and objectives are being achieved or are likely to be achieved within a prescribed period.

Where any such standards or objectives are not being achieved, or are not likely to be achieved within the prescribed period, in any part of a council's area, the council concerned must designate that part of its area as an air quality management area (see section 83(1) of the 1995 Act). An action plan must then be prepared in relation to the designated area, setting out how the council intends to exercise its powers to achieve the prescribed air quality standards and objectives (see section 84(2) of the 1995 Act).

The Air Quality (Wales) Regulations 2000 ("the 2000 Regulations") set the air quality objectives for Wales and prescribe the periods within which they must be achieved.

These Regulations amend the 2000 Regulations. They introduce a second air quality objective for benzene of 5 micrograms per cubic metre or less, when expressed as an annual mean, to be achieved by 31 December 2010 (regulation 2(2)(a)). They also alter the air quality objective for carbon monoxide, which is to be achieved

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

Maent hefyd yn newid yr amcan ansawdd aer ar gyfer carbon monocsid, y mae'n rhaid ei gyflawni erbyn 31 Rhagfyr 2003, i gymedr 8 awr cyfredol dyddiol uchaf o 10 miligram y metr ciwbig neu lai (rheoliad 2(2)(b)).

Mae diwygiadau hefyd yn cael eu gwneud i Ran II (Dehongli) o'r Atodlen i Reoliadau 2000. Mae'r diwygiadau hynny yn effeithio ar yr amcanion ansawdd aer ar gyfer bensen, carbon monocsid a phlwm: mae ystyr yr ymadrodd "cymedr 8 awr cyfredol dyddiol" yn cael ei esbonio ac mae newidiadau yn cael eu gwneud i ystyr yr ymadroddion "cymedr yn ôl yr awr" a "cymedr blynyddol" (rheoliad 2(3)).

by 31 December 2003, to a maximum daily running 8 hour mean of 10 milligrams per cubic metre or less (regulation 2(2)(b)).

Amendments are also made to Part II (Interpretation) of the Schedule to the 2000 Regulations These amendments affect the air quality objectives for benzene, carbon monoxide and lead: the meaning of the expression "maximum daily running 8 hour mean" is explained and changes are made to the meaning of the expressions "hourly mean" and "annual mean" (regulation 2(3)).

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

OFFERYNNAU STATUDOL

2002 Rhif 3182 (Cy.298)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

Wedi'u gwneud	*17 Rhagfyr 2002*
Yn dod i rym	*31 Rhagfyr 2002*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 87(1) a (2) o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**a**) ac a freiniwyd bellach yn y Cynulliad Cenedlaethol (**b**), ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 87(7) o'r Ddeddf honno ag Asiantaeth yr Amgylchedd, unrhyw gyrff neu bersonau y mae'n ymddangos i'r Cynulliad Cenedlaethol eu bod yn cynrychioli buddiannau llywodraeth leol a diwydiant fel y gwêl yn briodol, ac unrhyw gyrff neu bersonau eraill y gwêl yn briodol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002 a deuant i rym ar 31 Rhagfyr 2002.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

Amcanion ansawdd aer ar gyfer bensen, carbon monocsid a phlwm

2.-(1) Diwygir yr Atodlen i Reoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000(**c**) fel a ganlyn.

(2) Yn y Tabl yn Rhan I o'r Atodlen -

(a) ychwanegwch res arall sy'n ymwneud â bensen, ac

(i) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "Bensen: 5 microgram y metr ciwbig neu

(a) 1995 p.25; gweler adran 91(1) i gael y diffiniadau o "prescribed" a "regulations".

(b) Trosglwyddwyd pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru; gweler Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo.

(c) O.S. 2000/1940 (Cy. 138).

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 No. 3182 (W.298)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Air Quality (Amendment) (Wales) Regulations 2002

Made	*17th December 2002*
Coming into force	*31st December 2002*

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred upon the Secretary of State by section 87(1) and (2) of the Environment Act 1995(**a**) and now vested in the National Assembly(**b**), having, in accordance with section 87(7) of that Act, consulted the Environment Agency, such bodies or persons appearing to the National Assembly to be representative of the interests of local government and of industry as it considers appropriate, and such other bodies or persons as it considers appropriate, hereby makes the following Regulations:

Citation, commencement and application

1.-(1) These Regulations may be cited as the Air Quality (Amendment) (Wales) Regulations 2002 and come into force on 31st December 2002.

(2) These Regulations apply to Wales.

Air quality objectives for benzene, carbon monoxide and lead

2.-(1) The Schedule to the Air Quality (Wales) Regulations 2000(**c**) is amended as follows.

(2) In the Table in Part I of the Schedule -

(a) create an additional row which relates to benzene, and -

(i) in the column headed "Substance/Air quality objective levels" insert "Benzene: 5 micrograms per cubic metre or less, when

(a) 1995 c.25; see section 91(1) for the definitions of "prescribed" and "regulations".

(b) The powers of the Secretary of State, insofar as exercisable in relation to Wales, have been transferred to the National Assembly for Wales; see Article 2 of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(c) S.I. 2000/1940 (W.138).

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

lai, o'i fynegi fel cymedr blynyddol";

(ii) yn y golofn sy'n dwyn y teitl "Y dyddiad erbyn pryd mae'n rhaid cyflawni'r amcan" rhowch "31 Rhagfyr 2010"; a

(b) yn y rhes sy'n ymwneud â charbon monocsid, a'r golofn sy'n dwyn y teitl "Sylwedd/ Lefelau Amcanion Ansawdd Aer" rhowch "10" yn lle "11.6" a rhowch "dyddiol uchaf" ar ôl "cymedr 8 awr cyfredol".

(3) Yn Rhan II (Dehongli) o'r Atodlen -

(a) yn lle paragraff 2 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr 8 awr cyfredol) rhowch -

"**2**.-(1) Cymedr a gyfrifir ar sail ddyddiol yw cymedr 8 awr cyfredol dyddiol uchaf. Yr uchaf o'r cymedrau 8 awr cyfredol sy'n dod i ben yn ystod y diwrnod hwnnw yw'r cymedr 8 awr cyfredol dyddiol uchaf ar gyfer sylwedd penodol mewn lleoliad penodol ar gyfer diwrnod penodol.

(2) At ddibenion is-baragraff (1), cymedr a gyfrifir yn ôl yr awr, gan ildio un cymedr 8 awr cyfredol yr awr, yw "cymedr 8 awr cyfredol". Y cymedr 8 awr cyfredol ar gyfer y sylwedd perthnasol yn y lleoliad perthnasol ar gyfer awr benodol yw cymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer y sylwedd yn y lleoliad ar gyfer yr awr honno a'r 7 awr flaenorol."

(b) ym mharagraff 3 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr blynyddol yn achos plwm etc.) -

(i) dilëwch "ac" yn is-baragraff (1)(b);

(ii) ar ôl "honno" yn is-baragraff (1)(c) rhowch - "; ac

(ch) o ran bensen, naill ai cymedr y lefelau dyddiol ar gyfer y flwyddyn honno neu gymedr y cymedrau yn ôl yr awr ar gyfer y flwyddyn honno"; a

(iii) yn lle is-baragraff (4) rhowch -

"(4) At ddibenion unrhyw gyfrifiad o'r cymedr blynyddol ar gyfer bensen ar sail cymedr y lefelau dyddiol, y lefel ddyddiol ar gyfer bensen mewn lleoliad penodol ar ddiwrnod penodol yw'r lefel lle cofnodir bod bensen yn bresennol yn yr aer yn y lleoliad hwnnw yn ystod y pythefnos y digwydd y diwrnod ar sail sampl barhaus o'r aer a gymerir drwy gydol y pythefnos hwnnw (gan briodoli'r un lefel ddyddiol felly i bob diwrnod yn y pythefnos)."

(c) ym mharagraff 4 (sy'n ymwneud â chyfrifo cymedr yn ôl yr awr), yn lle'r ail frawddeg rhowch -

"Y cymedr yn ôl yr awr ar gyfer sylwedd penodol mewn lleoliad penodol ar gyfer awr benodol yw cymedr y lefelau a gofnodir ar gyfer y sylwedd hwnnw yn y lleoliad hwnnw:

(a) yn achos bensen, ar fynychder o nid llai nag unwaith yn ystod yr awr; a

expressed as an annual mean";

(ii) in the column headed "Date by which objective to be achieved" insert "31 December 2010"; and

(b) in the row which relates to carbon monoxide and the column headed "Substance/Air quality objective levels", substitute "10" for "11.6" and insert "maximum daily" before "running 8 hour mean".

(3) In Part II (Interpretation) of the Schedule -

(a) for paragraph 2 (which relates to the calculation of a running 8 hour mean) substitute -

"**2**.-(1) A maximum daily running 8 hour mean is calculated on a daily basis. The maximum daily running 8 hour mean for a particular substance at a particular location for a particular day is the maximum of the running 8 hour means ending during that day.

(2) For the purpose of sub-paragraph (1), a "running 8 hour mean" is a mean which is calculated on an hourly basis, yielding one running 8 hour mean per hour. The running 8 hour mean for the relevant substance at the relevant location for a particular hour is the mean of the hourly means for the substance at the location for that hour and the preceding 7 hours."

(b) in paragraph 3 (which relates to the calculation of an annual mean in the case of lead etc.) -

(i) delete "and" in sub-paragraph (1)(b);

(ii) after "year" in sub-paragraph (1)(c) insert - "; and

(d) in the case of benzene, either the mean of the daily levels for that year or the mean of the hourly means for that year"; and

(iii) for sub-paragraph (4) substitute -

"(4) For the purpose of any calculation of the annual mean for benzene on the basis of the mean of the daily levels, the daily level for benzene at a particular location for a particular day is the level at which benzene is recorded as being present in the air at that location during the fortnight in which the day occurs on the basis of a continuous sample of air taken throughout that fortnight (each day in the fortnight therefore being attributed with the same daily level)."

(c) in paragraph 4 (which relates to the calculation of an hourly mean), for the second sentence substitute -

"The hourly mean for a particular substance at a particular location for a particular hour is the mean of the levels recorded for that substance at that location:

(a) in the case of benzene, at a frequency of not less than once during the hour; and

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

(b) yn achos carbon monocsid, nitrogen deuocsid a sylffwr deuocsid, ar fynychder o nid llai nag unwaith bob 10 eiliad yn ystod yr awr."

(b) in the case of carbon monoxide, nitrogen dioxide and sulphur dioxide, at a frequency of not less than once every 10 seconds during the hour."

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**)

17 Rhagfyr 2002

17th December 2002

D. Elis-Thomas

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a) 1998 p.38.

(a) 1998 c.38.

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.

OFFERYNNAU STATUDOL

STATUTORY INSTRUMENTS

2002 Rhif 3182 (Cy.298)

DIOGELU'R AMGYLCHEDD, CYMRU

Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002

2002 No. 3182 (W.298)

ENVIRONMENTAL PROTECTION, WALES

The Air Quality (Amendment) (Wales) Regulations 2002

©℗ Hawlfraint y Goron 2002

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2002

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090610-1

9 780110 906102

£2.00

W184/12/02 ON

Licensed copy from CIS: arup50808, Arup, 16/08/2016, Uncontrolled Copy.